Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
11/2020
DYDDIAD CYHOEDDI:
27/02/2020

# Dealltwriaeth y cyhoedd o ddatganoli trethi: Adroddiad diweddaru 2020

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80038-193-3

**Dealltwriaeth y cyhoedd o ddatganoli trethi:**

Adroddiad diweddaru 2020

Nerys Owens ac Ian Jones

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru

Adroddiad Ymchwil Llawn: Owens, N. a Jones, I. (2020). *Dealltwriaeth y cyhoedd o ddatganoli trethi: adroddiad diweddaru 2020*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 11/2020.

Ar gael yn: https://llyw.cymru/dealltwriaeth-y-cyhoedd-o-ddatganoli-trethi-adroddiad-diweddaru-2020

Safbwyntiau'r ymchwilwyr sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Nerys Owens

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 8586

E-bost: nerys.owens@llyw.cymru

**Tabl cynnwys**


Rhestr o'r tablau ..... 2

Rhestr o'r ffigurau ..... 2

1. Cyflwyniad ..... 4
2. Rheolaeth dros drethi sy'n cael eu talu yng Nghymru ..... 7
3. Ymwybyddiaeth o wahanol drethi ..... 9
4. Datganoli trethi ..... 10
5. Lefel y rheolaeth ymddangosiadol dros drethi penodol ..... 14
6. Treth rydych yn ei thalu pan fyddwch yn prynu tŷ ..... 15
7. Treth ar y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yng Nghymru ..... 25
8. Treth Incwm ..... 25
9. Y Dreth Gyngor ..... 15
10. Treth ar Werth ..... 29
11. Treth ar alcohol ..... 32
12. Treth ar deithiau awyr ..... 17
13. Cysylltiad rhwng refeniw trethi a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ..... 34
14. Atodiad A: Methodoleg ..... 35
15. Atodiad B: Holiaduron ..... 40
16. Atodiad C: Gwybodaeth gefndirol am drethi'r DU a threthi a ddatganolwyd i Gymru ..... 42
17. Cyfeiriadau ..... 45

**Rhestr o'r tablau**


Tabl 1: A ydych chi'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru eisoes yn gosod rhai trethi yng Nghymru, sef y Dreth Trafodiadau Tir (Treth Dir y Dreth Stamp yn Lloegr) a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (Treth Dirlenwi yn Lloegr)? ....12

Tabl 2: A ydych chi'n ymwybodol o'r ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu gosod cyfraddau treth incwm gwahanol yng Nghymru o 6 Ebrill 2019? [a]....21

Tabl 3: Sut y gwnaethoch chi ddod yn ymwybodol o'r ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu gosod cyfraddau treth incwm gwahanol?....24

Tabl 4: Faint o'r arian a godir o drethi yng Nghymru y byddech chi'n disgwyl ei weld yn mynd tuag at wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru (fel ysgolion, ysbytai a gwasanaethau eraill)? ....34

Tabl A.1: Diffiniad o ranbarthau ....37

Tabl A.2: Diffiniad o gyrhaeddiad addysgol....38

Tabl A.3: Diffiniad o grwpiau economaidd-gymdeithasol ....39


**Rhestr o'r ffigurau**


Ffigur 1: Pwy sydd â'r rheolaeth fwyaf dros y trethi rydych chi'n eu talu? ....7

Ffigur 2: Pwy sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau'r dreth rydych yn ei thalu pan fyddwch yn prynu tŷ yng Nghymru? ....15

Ffigur 3: Faint o reolaeth ydych chi'n meddwl sydd gan Lywodraeth Cymru dros y dreth rydych yn ei thalu pan fyddwch yn prynu tŷ?....16

Ffigur 4: Pwy sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau'r dreth dirlenwi yng Nghymru?....17

Ffigur 5: Faint o reolaeth ydych chi'n meddwl sydd gan Lywodraeth Cymru dros dreth ar y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yng Nghymru? ....18

Ffigur 6: Pwy sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau'r Dreth Gyngor yng Nghymru? ....25

Ffigur 7: Faint o reolaeth ydych chi'n meddwl sydd gan Lywodraeth Cymru dros y dreth gyngor? ....26

Ffigur 8: Pwy sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau TAW yng Nghymru?....27

Ffigur 9: Faint o reolaeth ydych chi'n meddwl sydd gan Lywodraeth Cymru dros TAW?....28

Ffigur 10: Pwy sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau treth ar alcohol yng Nghymru? ....29

Ffigur 11: Cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir mai Llywodraeth y DU sydd â'r rheolaeth fwyaf dros dreth ar alcohol yng Nghymru yn ôl rhanbarth (%)....30

Ffigur 12: Faint o reolaeth ydych chi'n meddwl sydd gan Lywodraeth Cymru dros dreth ar alcohol?....31

Ffigur 13: Pwy sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau'r dreth ar deithiau awyr o Gymru? ......32
Ffigur 14: Faint o reolaeth ydych chi'n meddwl sydd gan Lywodraeth Cymru dros dreth ar deithiau awyr o Gymru? ..........................................................................................33

# 1. Cyflwyniad

## Cefndir

1.1 Ers mis Ebrill 2018, mae Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru wedi bod yn gyfrifol am amrywiaeth o drethi yng Nghymru[1]. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Treth Trafodiadau Tir (a ddisodlodd Dreth Dir y Dreth Stamp ym mis Ebrill 2018);
- Treth Gwarediadau Tirlenwi (a ddisodlodd y Dreth Tirlenwi ym mis Ebrill 2018);
- Cyfraddau Treth Incwm Cymru (sydd wedi'u datganoli'n rhannol ers mis Ebrill 2019).

1.2 Disgwylir i'r trethi hyn gyfrannu tua £2.5 biliwn y flwyddyn o gyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru (Ifan a Poole, 2018). Ar y cyd â'r Dreth Gyngor ac Ardrethi Annomestig, codir tua £5bn o refeniw trethi datganoledig a refeniw trethi lleol bob blwyddyn yng Nghymru i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

1.3 Mae Deddf Cymru 2014 hefyd yn rhoi pwerau i Lywodraeth Cymru greu trethi newydd mewn meysydd lle mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol a'r Senedd.

1.4 Mae polisi Trethi Cymru yn cael ei ddatblygu yn unol â'r egwyddorion a nodir yn Fframwaith Polisi Trethi Llywodraeth Cymru[2] a'r blaenoriaethau a gyflwynir yn y Cynlluniau Gwaith Polisi Trethi blynyddol, ac a gyhoeddir yn Adroddiadau Polisi Trethi Cymru[3].

1.5 Yn ystod 2019, parhaodd Llywodraeth Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru i gydweithio wrth fynd ati i ymgysylltu a chyfathrebu â rhanddeiliaid mewn perthynas â rheoli a chasglu'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

---

[1] Mae Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn rhoi'r pwerau i gasglu a rheoli trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn i Gymru, tra bod Deddf Cymru 2014 a Deddf Cymru 2017 yn darparu ar gyfer datganoli Treth Incwm yn rhannol.

[2] Gweler Llywodraeth Cymru (2017)

[3] Gweler Llywodraeth Cymru (2019a)

1.6 Ochr yn ochr â hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda CThEM a Llywodraeth y DU i roi gwybod am y broses o ddatganoli Treth Incwm yn rhannol. Mae sicrhau negeseuon clir a chyson am y broses o gyflwyno Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC) yn elfen bwysig o'r cydweithio hwn. Fel rhan o hyn, cafodd taflen gan Lywodraeth Cymru ei chynnwys yn y llythyr hysbysu a anfonodd CThEM at bob trethdalwr yng Nghymru fel rhan o'r ymgyrch gyfathrebu gyntaf a oedd yn cyd-fynd â Chyllideb ddrafft yr hydref yn 2018. Gwnaeth hyn alluogi negeseuon Llywodraeth Cymru i gyrraedd tua 2 filiwn o drethdalwyr yng Nghymru.

1.7 Bydd HMRC yn parhau i gasglu CTIC, tra bod ACC yn casglu treth trafodiadau tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi. Er mwyn sicrhau bod y negeseuon am ddatganoli cyllidol yn glir, mae gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu ers mis Ebrill 2019 ar gyfer y trethi datganoledig wedi cael ei gadw ar wahân i'r rhai ar gyfer CTIC, er mwyn osgoi dryswch ymhlith talwyr trethi. Food bynnag, mae'r naratif cyffredinol o drethi yn cefnogi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn parhau i gael ei rannu ar draws sefydliadau (Llywodraeth Cymru, 2019a).

**Monitro dealltwriaeth o ddatganoli trethi**

1.8 Er mwyn helpu i fonitro effeithiolrwydd ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth a lle y dylid targedu gweithgarwch ymgysylltu, mae angen gwybodaeth am ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o ddatganoli trethi yng Nghymru. Er mwyn diwallu'r anghenion hyn o ran tystiolaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys cwestiynau yn Arolwg Cenedlaethol Cymru (2016-17; 2017-18; a 2018-19) a chomisiynodd gwestiynau ychwanegol yng nghamau Mehefin 2018, Mawrth 2019 a Mehefin 2019 Arolwg Omnibws Cymru (a gynhaliwyd gan Beaufort Research Ltd).

1.9 Nodau'r cwestiynau hyn yw:

- nodi pa drethi y mae'r ymatebwyr wedi clywed amdanynt a phwy, ym marn yr ymatebydd, sydd â'r rheolaeth fwyaf dros osod lefelau'r trethi hyn;
- pennu faint o reolaeth sydd gan Lywodraeth Cymru dros osod lefelau'r trethi hyn, yn nhyb yr ymatebwyr
- pennu pa drethi fydd yn cael eu rheoli gan Lywodraeth Cymru, yn nhyb yr ymatebwyr;

- deall i ba raddau y mae'r ymatebwyr yn credu y bydd y refeniw a godir o drethi Cymru yn mynd tuag at wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

1.10 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau sy'n cael eu defnyddio i fonitro newidiadau o ran ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o ddatganoli trethi yng Nghymru, gyda chanfyddiadau yn cael eu cymharu â'r astudiaeth sylfaenol (Owens a Jones, 2019) lle y bo'n bosibl. Caiff y dadansoddiad ei ddefnyddio hefyd i lywio'r ffordd y caiff gohebiaeth ei thargedu ymhlith gwahanol grwpiau o'r boblogaeth.

**Yr arolygon**

1.11 Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys cyfweliadau wyneb yn wyneb â sampl gynrychioliadol o tua 11,000 o oedolion 16 oed a throsodd bob blwyddyn. Mae'r arolwg yn ymdrin ag amrywiaeth eang o bynciau, gan ganolbwyntio ar lesiant a barn pobl am wasanaethau cyhoeddus. Gofynnwyd cwestiynau am ddatganoli trethi i is-sampl o 2,544 o ymatebwyr yn 2016-17; 1,856 o ymatebwyr yn 2017-18; a 1,926 o ymatebwyr yn 2018-19.

1.12 Mae Arolwg Omnibws Cymru yn cynnwys cyfweliadau wyneb yn wyneb â sampl gynrychioliadol o 1,000 o oedolion 16 oed a throsodd sy'n byw yng Nghymru, o leiaf. Gwnaed y gwaith maes ar gyfer cam mis Mehefin 2018 rhwng 4 a 17 Mehefin 2018 (cwblhawyd 1,006 o gyfweliadau); cynhaliwyd cam mis Mawrth 2019 rhwng 25 Chwefror a 10 Mawrth 2019 (cwblhawyd 1,001 o gyfweliadau); a chynhaliwyd cam mis Mehefin 2019 rhwng 3 ac 21 Mehefin 2019 (cwblhawyd 1,025 o gyfweliadau);

**Gwahaniaethau arwyddocaol**

1.13 Cynhaliwyd profion arwyddocâd ystadegol ar y data yn y dadansoddiad er mwyn helpu i ddehongli'r canlyniadau. Pan nodir bod gwahaniaeth rhwng dau is-grŵp yn ‘arwyddocaol’ yn yr adroddiad hwn, golyga hyn fod y debygoliaeth o gael y canfyddiad ar hap yn llai nag un mewn 20 – h.y. mae'n debygol o adlewyrchu cydberthynas wirioneddol yn y boblogaeth.

1.14 Pan gaiff data arolwg eu profi i weld a ydynt yn ystadegol arwyddocaol, tybir bod y sampl a geir yn cynrychioli hapsampl o'r boblogaeth berthnasol. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn defnyddio hapsamplu, tra bod Arolwg Omnibws Cymru yn defnyddio samplu cwota cyfrannol. A bod yn fanwl gywir, ni ellir pennu arwyddocâd ystadegol gwirioneddol ar gyfer y dull samplu olaf. **Felly, mae gwahaniaethau**

**‘arwyddocaol’ sy'n seiliedig ar ddata o Arolwg Omnibws Cymru yn cyfeirio at wahaniaeth arwyddocaol ffug-ystadegol ar 95 y cant o'r lefel hyder.**


1.15 Mae rhagor o wybodaeth am fethodolegau'r arolygon, ynghyd â diffiniadau o ranbarthau, cyrhaeddiad addysgol a dosbarthiadau grwpiau economaidd-gymdeithasol a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn, wedi'i chynnwys yn Atodiad A. Atodir gwybodaeth am yr holiaduron yn Atodiad B. Atodir gwybodaeth gefndirol am drethi'r DU a threthi a ddatganolwyd i Gymru yn Atodiad C.

## 2. Rheolaeth dros drethi sy'n cael eu talu yng Nghymru

2.1 Gofynnwyd i ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru pwy, yn eu barn nhw, oedd â'r rheolaeth fwyaf dros y trethi yr oeddent yn eu talu yng Nghymru, gan ddewis o restr o opsiynau – cynghorau lleol; Llywodraeth Cymru; Llywodraeth y DU; a 'ddim yn gwybod’.

2.2 Ym mhob un o flynyddoedd yr arolwg, dywedodd dwy ran o dair o'r ymatebwyr mai Llywodraeth y DU oedd â'r rheolaeth fwyaf dros drethi, a dywedodd tua un o bob deg mai Llywodraeth Cymru oedd â'r rheolaeth fwyaf (Ffigur 1). Nid oedd unrhyw newidiadau arwyddocaol yn yr ymatebion rhwng tair blynedd yr arolwg.

**Ffigur 1: Pwy sydd â'r rheolaeth fwyaf dros y trethi rydych chi'n eu talu?**




Sylfaen: Holl ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru (2,544 yn 2016-17; 1,856 yn 2017-18; 1,926 yn 2018-19).

2.3 Yn 2018-19, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yng nghyfran yr ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent yn gwybod pwy sydd â'r rheolaeth fwyaf dros y trethi y maent yn eu talu yn ôl oedran a chyrhaeddiad addysgol ond nid yn ôl rhanbarth.

2.4 Roedd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent yn gwybod pwy sydd â'r rheolaeth fwyaf dros y trethi y maent yn eu talu ar ei huchaf ymhlith yr ymatebwyr canlynol:


- 16-34 oed (28 y cant) o gymharu â 15 y cant o'r rhai 55+ oed a 12 y cant o'r rhai 35-54 oed;
- ymatebwyr heb gymwysterau (25 y cant) neu ymatebwyr â chymwysterau islaw lefel gradd (21 y cant) o gymharu â 9 y cant o'r ymatebwyr â gradd neu gymhwyster uwch.

# 3. Ymwybyddiaeth o wahanol drethi

3.1 Holwyd ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru am eu hymwybyddiaeth o drethi gwahanol. Yn 2018-19, fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd bron pob ymatebydd wedi clywed am Dreth Incwm, Treth ar Werth (TAW) a'r Dreth Gyngor. Roedd tua wyth o bob deg wedi clywed am dreth rydych yn ei thalu pan fyddwch yn prynu tŷ a threth ar alcohol.

3.2 Mewn cymhariaeth, yn 2018-19 roedd llai na hanner yr ymatebwyr wedi clywed am dreth ar deithiau awyr a threth ar y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi (Ffigur 2).

**Ffigur 2: Pa drethi rydych wedi clywed amdanynt?**




Sylfaen: Holl ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru (2,544 yn 2016-17; 1,856 yn 2017-18; 1,926 yn 2018-19).
* Yn 2016-17 a 2017-18, rhoddwyd cerdyn dangos i'r ymatebwyr, â 'Treth Stamp, hynny yw y dreth yr ydych yn ei thalu pan fyddwch yn prynu tŷ' arno. Yn 2018-19, newidiwyd hyn i 'Treth yr ydych yn ei thalu pan fyddwch yn prynu tŷ'.

# 4. Datganoli trethi

## Arolwg Cenedlaethol Cymru

4.1 Dywedwyd wrth ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru[4] ‘o fis Ebrill 2018 ymlaen, mae Llywodraeth Cymru wedi gallu gosod lefelau rhai trethi yng Nghymru a osodwyd ynghynt gan Lywodraeth y DU’. Wedyn gofynnwyd i'r ymatebwyr, ‘Pa rai o'r trethi yma ydych chi'n credu sydd wedi dod o dan reolaeth Llywodraeth Cymru?’[5].

4.2 Yn 2018-19, dywedodd tua un o bob tri o'r ymatebwyr (34 y cant) yn gywir fod y dreth rydych yn ei thalu pan fyddwch yn prynu tŷ[6] wedi dod o dan reolaeth Llywodraeth Cymru, gan gynyddu o 30 y cant yn 2017-18, er nad oedd y newid hwn yn ystadegol arwyddocaol.

4.3 Bu cynnydd ystadegol arwyddocaol yn y gyfran a ddywedodd yn gywir fod treth ar y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi[7] wedi dod o dan reolaeth Llywodraeth Cymru, gan gynyddu o 40 y cant yn 2017-18 i 49 y cant yn 2018-19 (Ffigur 3).


[4] Heb gynnwys y nifer bach o ymatebwyr nad oeddent wedi clywed am unrhyw rai o'r trethi a nodwyd.

[5] Yn arolygon 2016-17 a 2017-18, gofynnwyd i'r ymatebwyr, ‘O fis Ebrill 2018 ymlaen, bydd Llywodraeth Cymru yn gallu gosod lefelau rhai trethi yng Nghymru sydd wedi cael eu gosod gan Lywodraeth y DU ar hyn o bryd. Pa rai o'r trethi yma ydych chi'n credu fydd yn dod o dan reolaeth Llywodraeth Cymru?

[6] Fe'i gelwid gynt yn Dreth Dir y Dreth Stamp ac fe'i gelwir bellach yn Dreth Trafodiadau Tir yng Nghymru.

[7] Fe'i gelwir bellach yn Dreth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru.

**Ffigur 3: Trethi o dan reolaeth Llywodraeth Cymru ers mis Ebrill 2018**




Sylfaen: Ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru a oedd wedi clywed am o leiaf un o'r trethi a nodwyd (2,487 yn 2016-17; 1,796 yn 2017-18; 1,858 yn 2018-19).

**Arolwg Omnibws Cymru**

4.4 Yn sgil datganoli treth trafodiadau tir a threth dirlenwi ym mis Ebrill 2018, gofynnwyd i ymatebwyr camau mis Mehefin 2018 a mis Mawrth 2019 Arolwg Omnibws Cymru a oeddent yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru eisoes yn gosod rhai trethi yng Nghymru.

4.5 Rhwng mis Mehefin 2018 a mis Mawrth 2019, gostyngodd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru eisoes yn gosod rhai trethi yng Nghymru ychydig o 38 y cant i 35 y cant, er nad oedd y newid hwn yn arwyddocaol (Tabl 1).

**Tabl 1: A ydych chi'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru eisoes yn gosod rhai trethi yng Nghymru, sef y Dreth Trafodiadau Tir (Treth Dir y Dreth Stamp yn Lloegr) a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (Treth Dirlenwi yn Lloegr)?**


| Ymateb | Canran yr ymatebwyr Mehefin 2018 [a] | Canran yr ymatebwyr Mawrth 2019 [a] |
|---|---:|---:|
| Ydw | 38 | 35 |
| Nac ydw | 61 | 62 |
| Ddim yn gwybod | <1 | 2 |

Sylfaen: Holl ymatebwyr Arolwg Omnibws Cymru (1,006 Mehefin 2018; 1,001 Mawrth 2019)
(a) Mae'n bosibl na fydd y cyfanswm yn cyfateb i 100 y cant yn union oherwydd talgrynnu.

4.6 Ym mis Mawrth 2019, roedd gwahaniaethau arwyddocaol o ran ymwybyddiaeth bod Llywodraeth Cymru eisoes yn gosod rhai trethi yn ôl oedran a grŵp economaidd-gymdeithasol ond nid yn ôl rhanbarth. Roedd lefelau ymwybyddiaeth yn is ymhlith ymatebwyr 16-34 oed (Ffigur 4) ac ymatebwyr o grwpiau economaidd-gymdeithasol C2DE[8] (Ffigur 5).


[8] Gweler Tabl A.3 yn Atodiad A am ddiffiniad o'r dosbarthiadau o grwpiau economaidd-gymdeithasol a ddefnyddiwyd wrth ddadansoddi'r data o Arolwg Omnibws Cymru.

**Ffigur 4: Ymwybyddiaeth o'r ffaith bod Llywodraeth Cymru eisoes yn gosod rhai trethi, yn ôl oedran**




Sylfaen: Holl ymatebwyr Arolwg Omnibws Cymru (1,006 Mehefin 2018; 1,001 Mawrth 2019)

**Ffigur 5: Ymwybyddiaeth o'r ffaith bod Llywodraeth Cymru eisoes yn gosod rhai trethi, yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol**




Sylfaen: Holl ymatebwyr Arolwg Omnibws Cymru (1,006 Mehefin 2018; 1,001 Mawrth 2019)

## 5. Lefel y rheolaeth ymddangosiadol dros drethi penodol

5.1 Roedd Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys cwestiynau a oedd yn ceisio barn ymatebwyr ar bwy oedd â’r rheolaeth fwyaf dros amrywiaeth o drethi (cynghorau lleol, Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU), a faint o reolaeth sydd gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

5.2 Gofynnwyd y cwestiynau hyn am drethi datganoledig a threthi wedi'u datganoli'n rhannol (treth rydych yn ei thalu pan fyddwch yn prynu tŷ, treth ar y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi a Threth Incwm); treth leol (y Dreth Gyngor); a threthi nad ydynt wedi'u datganoli (TAW, treth ar alcohol a threth ar deithiau awyr). Cyflwynir y rhain yn eu tro isod. Cafodd cwestiynau atodol am ddatganoli Treth Incwm yn rhannol eu cynnwys hefyd yn Arolwg Omnibws Cymru.


## 6. Treth rydych yn ei thalu pan fyddwch yn prynu tŷ

*Wedi'i datganoli ers mis Ebrill 2018 pan ddisodlwyd Treth Dir y Dreth Stamp gan y Dreth Trafodiadau Tir yng Nghymru.*

6.1 Rhwng 2016-17 a 2018-19, gostyngodd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd mai Llywodraeth y DU a oedd â'r rheolaeth fwyaf dros osod lefelau'r dreth rydych yn ei thalu pan fyddwch yn prynu tŷ yng Nghymru yn sylweddol o 75 y cant i 66 y cant. Dros yr un cyfnod, cynyddodd cyfran y rhai a ddywedodd mai Llywodraeth Cymru a oedd â'r rheolaeth fwyaf yn sylweddol o 11 y cant i 18 y cant (Ffigur 6)[9].

6.2 Er gwaethaf y newidiadau hyn, dywedodd mwyafrif clir mai Llywodraeth y DU sydd â'r rheolaeth fwyaf dros osod lefelau ers i'r dreth gael ei datganoli.

**Ffigur 6: Pwy sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau'r dreth rydych yn ei thalu pan fyddwch yn prynu tŷ yng Nghymru?**




Sylfaen: Ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru a oedd wedi clywed am Dreth Dir y Dreth Stamp neu'r dreth rydych yn ei thalu pan fyddwch yn prynu tŷ (2,053 yn 2016-17; 1,458 yn 2017-18; 1,447 yn 2018-19).


[9] Dylid nodi bod geiriad y cwestiwn wedi newid ychydig yn 2018-19. Yn 2016-17 a 2017-18, gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Yng Nghymru, pwy ydych chi'n meddwl sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau'r Dreth Stamp?'. Yn 2018-19, newidiwyd y cwestiwn hwn i 'Yng Nghymru, pwy ydych chi'n meddwl sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau'r dreth rydych yn ei thalu pan fyddwch yn prynu tŷ?'

6.3 Yn 2018-19, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yng nghyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir mai Llywodraeth Cymru sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau'r dreth rydych yn ei thalu pan fyddwch yn prynu tŷ yng Nghymru yn ôl oedran a chyrhaeddiad addysgol ond nid yn ôl rhanbarth. Roedd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir mai Llywodraeth Cymru sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau'r dreth hon ar ei huchaf ymhlith yr ymatebwyr canlynol:

- 16-34 oed (23 y cant) o gymharu â 18 y cant o'r ymatebwyr 35-54 oed ac 16 y cant o'r ymatebwyr 55+ oed;
- â gradd neu gymhwyster uwch (20 y cant) neu gymwysterau islaw lefel gradd (19 y cant) o gymharu â 13 y cant ar gyfer y rhai heb gymwysterau.

6.4 Rhwng 2016-17 a 2018-19, gostyngodd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn meddwl nad oedd gan Lywodraeth Cymru unrhyw reolaeth o gwbl dros y dreth rydych yn ei thalu pan fyddwch yn prynu tŷ yn sylweddol o 55 y cant i 38 y cant (Ffigur 7).

**Ffigur 7: Faint o reolaeth ydych chi'n meddwl sydd gan Lywodraeth Cymru dros y dreth rydych yn ei thalu pan fyddwch yn prynu tŷ?**




Sylfaen: Ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru a oedd wedi clywed am Dreth Dir y Dreth Stamp (2,053 yn 2016-17; 1,458 yn 2017-18; 1,447 yn 2018-19).


## 7. Treth ar y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi

*Wedi'i datganoli ers mis Ebrill 2018 pan ddisodlwyd y Dreth Dirlenwi gan y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru.*

7.1 Ym mhob un o flynyddoedd yr arolwg roedd rhaniad sylweddol o ran yr atebion a roddwyd gan yr ymatebwyr ynglŷn â phwy sydd â'r rheolaeth fwyaf dros osod lefelau'r dreth ar wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yng Nghymru. Yn 2018-19, dywedodd 36 y cant o'r ymatebwyr yn gywir mai Llywodraeth Cymru sydd â'r rheolaeth fwyaf, a dywedodd yr un gyfran mai Llywodraeth y DU sydd â'r rheolaeth fwyaf (Ffigur 8).

7.2 Yn gyffredinol, ni welwyd fawr ddim newid rhwng blynyddoedd yr arolwg er bod y dreth dirlenwi wedi'i datganoli o fis Ebrill 2018 ymlaen.

**Ffigur 8: Pwy sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau'r dreth dirlenwi yng Nghymru?**





Sylfaen: Ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru a oedd wedi clywed am y dreth ar wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi (1,179 yn 2016-17; 762 yn 2017-18; 773 yn 2018-19).

7.3 Yn 2018-19, roedd gwahaniaeth arwyddocaol yng nghyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir mai Llywodraeth y DU sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau'r dreth ar y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yng Nghymru yn ôl oedran ond nid yn ôl cyrhaeddiad addysgol na rhanbarth.

7.4 Roedd y gyfran a ddywedodd yn gywir mai Llywodraeth Cymru sydd â'r rheolaeth fwyaf dros dreth ar y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yng Nghymru ar ei huchaf ymhlith y rhai 35-54 oed (44 y cant), o gymharu â 37 y cant o'r rhai 55+ oed ac 20 y cant o'r rhai 16-34 oed.

7.5 Roedd bron dau o bob tri o'r ymatebwyr ym mhob un o flynyddoedd yr arolwg yn meddwl bod gan Lywodraeth Cymru rywfaint o reolaeth neu reolaeth lwyr dros y dreth dirlenwi yng Nghymru (Ffigur 9). Er i gyfran y rhai a ddywedodd nad oeddent yn gwybod gynyddu ychydig dros y cyfnod hwn, ac er i gyfran y rhai a ddywedodd nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw reolaeth o gwbl ostwng, nid oedd yr un o'r newidiadau hyn yn arwyddocaol.

**Ffigur 9: Faint o reolaeth ydych chi'n meddwl sydd gan Lywodraeth Cymru dros dreth ar y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yng Nghymru?**




Sylfaen: Ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru a oedd wedi clywed am y dreth ar wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi (1,179 yn 2016-17; 762 yn 2017-18; 773 yn 2018-19).


# 8. Treth Incwm

*Wedi'i datganoli'n rhannol ers mis Ebrill 2019 pan gyflwynwyd Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC). Golyga hyn fod gan Lywodraeth Cymru y pŵer i bennu'r cyfraddau Treth Incwm a delir gan drethdalwyr yng Nghymru ond nid oes ganddi bwerau i newid bandiau Treth Incwm na throthwy'r Lwfans Personol, sy'n aros gyda Llywodraeth y DU.*

### Arolwg Cenedlaethol Cymru

8.1 Ym mhob un o flynyddoedd Arolwg Cenedlaethol Cymru, dywedodd tua saith o bob deg ymatebydd yn gywir mai Llywodraeth y DU sydd â'r rheolaeth fwyaf dros osod lefelau Treth Incwm yng Nghymru (Ffigur 10). Mae'r dreth hon wedi'i datganoli'n rhannol ers mis Ebrill 2019 (gweler Atodiad C am fwy o wybodaeth) ond cwblhawyd y gwaith maes ar gyfer Arolwg Cenedlaethol Cymru cyn y dyddiad hwn.

**Ffigur 10: Pwy sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau Treth Incwm yng Nghymru?**




Sylfaen: Ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru a oedd wedi clywed am Dreth Incwm (2,436 yn 2016-17; 1,754 yn 2017-18; 1,786 yn 2018-19).


8.2 Yn 2018-19, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yng nghyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir mai Llywodraeth y DU sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau

Treth Incwm yng Nghymru yn ôl oedran a chyrhaeddiad addysgol ond nid yn ôl rhanbarth. Roedd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir mai Llywodraeth y DU sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau Treth Incwm yng Nghymru ar ei huchaf ymhlith yr ymatebwyr canlynol:

- 35-54 oed (76 y cant) a 55+ oed (73 y cant), o gymharu â 58 y cant o ymatebwyr 16-34 oed;
- â gradd neu gymhwyster uwch (77 y cant), o gymharu â 65 y cant ar gyfer y rhai â chymwysterau islaw lefel gradd, a 66 y cant ar gyfer y rhai heb gymwysterau.

8.3 Rhwng 2016-17 a 2018-19, bu gostyngiad sylweddol yng nghyfran yr ymatebwyr a oedd yn meddwl nad oedd gan Lywodraeth Cymru unrhyw reolaeth o gwbl dros Dreth Incwm yng Nghymru (Ffigur 11). Er nad oedd Treth Incwm wedi cael ei datganoli i Gymru eto, mae hyn yn codi'r cwestiwn ynghylch a oedd y sylw a roddwyd i'r newid a oedd ar ddod wedi dylanwadu ar ganfyddiad pobl.

**Ffigur 11: Faint o reolaeth ydych chi'n meddwl sydd gan Lywodraeth Cymru dros Dreth Incwm?**




Sylfaen: Ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru a oedd wedi clywed am Dreth Incwm (2,436 yn 2016-17; 1,754 yn 2017-18; 1,786 yn 2018-19).

**Arolwg Omnibws Cymru**

8.4 Gofynnwyd i ymatebwyr Arolwg Omnibws Cymru a oeddent yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn gallu gosod cyfraddau Treth Incwm gwahanol yng Nghymru o 6 Ebrill 2019.

8.5 Rhwng mis Mehefin 2018 a mis Mehefin 2019, cynyddodd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o hyn yn sylweddol o 24 y cant i 38 y cant (Tabl 2).

**Tabl 2: A ydych chi'n ymwybodol o'r ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu gosod cyfraddau treth incwm gwahanol yng Nghymru o 6 Ebrill 2019? [a]**


| Ymateb | Canran yr ymatebwyr Mehefin 2018 [b] | Canran yr ymatebwyr Mawrth 2019 [b] | Canran yr ymatebwyr Mehefin 2019 [b] |
|---|---|---|---|
| Ydw | 24 | 36 | 38 |
| Nac ydw | 76 | 61 | 61 |
| Ddim yn gwybod | 1 | 2 | 1 |

Sylfaen: Holl ymatebwyr Arolwg Omnibws Cymru (1,006 Mehefin 2018; 1,001 Mawrth 2019; 1,025 Mehefin 2019)
(a) Ym mis Mehefin 2018 a mis Mawrth 2019, gofynnwyd i'r ymatebwyr 'A ydych chi'n ymwybodol o'r ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu gosod cyfraddau treth incwm gwahanol yng Nghymru o 6 Ebrill 2019?'
(b) Mae'n bosibl na fydd y cyfanswm yn cyfateb i 100 y cant yn union oherwydd talgrynnu.

8.6 Ym mis Mehefin 2019, roedd gwahaniaethau arwyddocaol o ran ymwybyddiaeth bod Llywodraeth Cymru yn gallu gosod cyfraddau Treth Incwm gwahanol yng Nghymru yn ôl oedran, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhanbarth.

8.7 Roedd ymwybyddiaeth yn uwch ymhlith ymatebwyr 55+ oed. Rhwng mis Mehefin 2018 a mis Mehefin 2019, cynyddodd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn gallu gosod cyfraddau Treth Incwm gwahanol ym mhob grŵp oedran (Ffigur 12).


**Ffigur 12: Ymwybyddiaeth o'r ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu gosod cyfraddau Treth Incwm gwahanol o fis Ebrill 2019 ymlaen**




Sylfaen: Holl ymatebwyr Arolwg Omnibws Cymru (1,006 Mehefin 2018; 1,001 Mawrth 2019; 1,025 Mehefin 2019)

8.8 Roedd ymwybyddiaeth o'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn gallu gosod cyfraddau Treth Incwm gwahanol yng Nghymru hefyd yn uwch ymhlith ymatebwyr o grwpiau economaidd-gymdeithasol ABC1. Rhwng mis Mehefin 2018 a mis Mehefin 2019, cynyddodd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn gallu gosod cyfraddau Treth Incwm gwahanol yng ngrwpiau economaidd-gymdeithasol ABC1 a C2DE.


**Ffigur 13: Ymwybyddiaeth o'r ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu gosod cyfraddau Treth Incwm gwahanol o fis Ebrill 2019 ymlaen, yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol**




Sylfaen: Holl ymatebwyr Arolwg Omnibws Cymru (1,006 Mehefin 2018; 1,001 Mawrth 2019; 1,025 Mehefin 2019)

8.9 Roedd ymwybyddiaeth o'r ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu gosod cyfraddau treth incwm gwahanol yng Nghymru o fis Ebrill 2019 ymlaen hefyd yn uwch ymhlith ymatebwyr a oedd yn byw yng nghanolbarth neu orllewin Cymru (Ffigur 14). Rhwng mis Mehefin 2018 a mis Mehefin 2019, cynyddodd lefelau ymwybyddiaeth ym mhob grŵp oedran. Fodd bynnag, mae'r data hefyd yn dangos bod lefelau ymwybyddiaeth ymatebwyr wedi gostwng rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2019 yng Ngogledd Cymru a Chaerdydd a De-ddwyrain Cymru.

**Ffigur 14: Ymwybyddiaeth o'r ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu gosod cyfraddau Treth Incwm gwahanol o fis Ebrill 2019 ymlaen, yn ôl rhanbarth**




Sylfaen: Holl ymatebwyr Arolwg Omnibws Cymru (1,006 Mehefin 2018; 1,001 Mawrth 2019; 1,025 Mehefin 2019)

8.10 Gofynnwyd, yn ddigymell, i ymatebwyr cam mis Mawrth 2019 a oedd yn ymwybodol o'r ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu gosod cyfraddau Treth Incwm gwahanol yng Nghymru, sut roeddent wedi dod yn ymwybodol o hyn.

8.11 Dywedodd tua phedwar o bob deg ymatebydd (39 y cant) eu bod wedi dod yn ymwybodol o hyn drwy'r teledu, tra dywedodd tua thraen (34 y cant) eu bod wedi dod i wybod o hyn drwy lythyr a anfonwyd gan CThEM (Tabl 3).

**Tabl 3: Sut y gwnaethoch chi ddod yn ymwybodol o'r ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu gosod cyfraddau treth incwm gwahanol?**

| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr [a]** |
|---|---|
| Teledu | 39 |
| Llythyr gan CThEM [b] | 34 |
| Ar lafar / dywedodd rhywun wrthyf | 17 |
| **Ymatebion eraill a nodwyd gan lai na 30 o ymatebwyr [c]** | |
| Rhyngrwyd / ar-lein | |
| Papur newydd / cylchgrawn | |
| Radio | |
| Cyfryngau cymdeithasol | |
| Drwy'r gwaith | |

Sylfaen: Ymatebwyr Arolwg Omnibws Cymru a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o'r ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu gosod cyfraddau Treth Incwm gwahanol (364 ym mis Mawrth 2019)

(a) Mae'n bosibl y bydd y cyfanswm ar gyfer y tabl yn fwy na 100 y cant gan fod ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un ateb.

(b) Ym mis Tachwedd 2018, anfonodd CThEM llythyr hysbysu dwyieithog at fwy na dwy filiwn o unigolion yng Nghymru y gallai cyflwyno cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC) effeithio arnynt. Cadarnhaodd y llythyr y câi CTIC eu cyflwyno o 6 Ebrill 2019 ymlaen ac roedd yn cynnwys taflen ddwyieithog gan Drysorlys Cymru a oedd yn rhoi rhagor o wybodaeth am CTIC.


(c) Cyflwynir yr ymatebion 'eraill' yn nhrefn yr wyddor.

## 9. Y Dreth Gyngor

*Wedi'i gosod gan gynghorau lleol.*

9.1 Ym mhob un o flynyddoedd yr arolwg, dywedodd mwy na phedwar o bob deg ymatebydd mai cynghorau lleol sydd â'r rheolaeth fwyaf dros osod lefelau'r Dreth Gyngor yng Nghymru, tra dywedodd tua thraean mai Llywodraeth Cymru sydd â'r rheolaeth fwyaf (Ffigur 15).

**Ffigur 15: Pwy sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau'r Dreth Gyngor yng Nghymru?**





Sylfaen: Ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru a oedd wedi clywed am y Dreth Gyngor (2,447 yn 2016-17; 1,762 yn 2017-18; 1,798 yn 2018-19).

9.2 Yn 2018-19, roedd gwahaniaeth arwyddocaol yng nghyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir mai cynghorau lleol sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau'r Dreth Gyngor yng Nghymru yn ôl cyrhaeddiad addysgol ond nid yn ôl oedran na rhanbarth.

9.3 Roedd y gyfran a ddywedodd yn gywir mai cynghorau lleol sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau'r Dreth Gyngor yng Nghymru ar ei huchaf ymhlith ymatebwyr â gradd neu gymhwyster uwch (51 y cant), o gymharu â 40 y cant ar gyfer y rhai â chymwysterau islaw lefel gradd neu heb gymwysterau.

9.4 Gostyngodd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn credu bod gan Lywodraeth Cymru rywfaint o reolaeth dros lefel y Dreth Gyngor yng Nghymru o 62 y cant yn 2016-17 i 56 y cant yn 2018-19 er nad oedd y newid hwn yn arwyddocaol. Fodd bynnag, cynyddodd cyfran yr ymatebwyr a atebodd 'ddim yn gwybod' i'r cwestiwn yn sylweddol o 16 y cant i 21 y cant dros yr un cyfnod (Ffigur 16), er na fu unrhyw newid yn statws pwy sy'n rheoli'r Dreth Gyngor yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn.

**Ffigur 16: Faint o reolaeth ydych chi'n meddwl sydd gan Lywodraeth Cymru dros y dreth gyngor?**





Sylfaen: Ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru a oedd wedi clywed am y Dreth Gyngor (2,447 yn 2016-17; 1,762 yn 2017-18; 1,798 yn 2018-19).

## 10. Treth ar Werth

*Heb ei datganoli.*

10.1 Dangosodd dadansoddiad o'r canlyniadau ym mhob un o flynyddoedd Arolwg Cenedlaethol Cymru fod tua wyth o bob deg ymatebydd wedi dweud yn gywir mai Llywodraeth y DU sydd â'r rheolaeth fwyaf dros osod lefelau TAW (Ffigur 17)

**Ffigur 17: Pwy sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau TAW yng Nghymru?**




Sylfaen: Ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru a oedd wedi clywed am TAW (2,407 yn 2016-17; 1,722 yn 2017-18; 1,748 yn 2018-19).


10.2 Yn 2018-19, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yng nghyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir mai Llywodraeth y DU sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau TAW yng Nghymru yn ôl oedran a chyrhaeddiad addysgol ond nid yn ôl rhanbarth. Roedd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir mai Llywodraeth y DU sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau TAW ar ei huchaf ymhlith yr ymatebwyr canlynol:

- 35-54 oed (85 y cant) a 55+ oed (83 y cant), o gymharu â 66 y cant o ymatebwyr 16-34 oed;

- â gradd neu gymhwyster uwch (86 y cant), o gymharu â 76 y cant ar gyfer y rhai heb gymwysterau a 73 y cant ar gyfer y rhai â chymwysterau islaw lefel gradd.

10.3 Gostyngodd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn meddwl nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw reolaeth o gwbl dros TAW o 61 y cant yn 2016-17 i 53 y cant yn 2018-19. Ar y llaw arall, cynyddodd cyfran yr ymatebwyr a atebodd 'ddim yn gwybod' i'r cwestiwn o 19 y cant i 26 y cant dros yr un cyfnod (Ffigur 18), er na fu unrhyw newid yn statws pwy sy'n rheoli TAW.

**Ffigur 18: Faint o reolaeth ydych chi'n meddwl sydd gan Lywodraeth Cymru dros TAW?**





Sylfaen: Ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru a oedd wedi clywed am TAW (2,407 yn 2016-17; 1,722 yn 2017-18; 1,748 yn 2018-19).

## 11. Treth ar alcohol

*Heb ei datganoli.*

11.1 Rhwng 2016-17 a 2018-19, gostyngodd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn credu mai Llywodraeth y DU a oedd â'r rheolaeth fwyaf dros osod lefelau treth ar alcohol yng Nghymru yn sylweddol o 84 y cant i 78 y cant (Ffigur 19).

**Ffigur 19: Pwy sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau treth ar alcohol yng Nghymru?**





Sylfaen: Ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru a oedd wedi clywed am dreth ar alcohol (2,037 yn 2016-17; 1,483 yn 2017-18; 1,496 yn 2018-19).

11.2 Yn 2018-19, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yng nghyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir mai Llywodraeth y DU sydd â'r rheolaeth fwyaf dros dreth ar alcohol yng Nghymru yn ôl rhanbarth ond nid yn ôl oedran na chyrhaeddiad addysgol.

11.3 Roedd y gyfran a ddywedodd yn gywir mai Llywodraeth y DU sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau treth ar alcohol yng Nghymru ar ei huchaf ymhlith ymatebwyr a oedd yn byw yng Ngogledd Cymru (84 y cant), gyda'r gyfran isaf (74 y cant) ym Mae Abertawe (Ffigur 20).

**Ffigur 20: Cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir mai Llywodraeth y DU sydd â'r rheolaeth fwyaf dros dreth ar alcohol yng Nghymru yn ôl rhanbarth (%)**





Sylfaen: Ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru a oedd wedi clywed am dreth ar alcohol (1,496 yn 2018-19).

11.4 Rhwng 2016-17 a 2018-19, gostyngodd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd nad oedd gan Lywodraeth Cymru unrhyw reolaeth o gwbl dros dreth ar alcohol yn sylweddol o 65 y cant i 50 y cant; tra cynyddodd cyfran yr ymatebwyr a atebodd ‘ddim yn gwybod’ i'r cwestiwn yn sylweddol o 16 y cant i 23 y cant dros (Ffigur 21).

11.5 Mae hyn yn codi'r cwestiwn ynghylch a wnaeth y sylw a roddwyd i Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) Cymru 2018[10] ddylanwadu ar ganfyddiad pobl, er nad yw'n dreth.

[10] Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru) 2018

**Ffigur 21: Faint o reolaeth ydych chi'n meddwl sydd gan Lywodraeth Cymru dros dreth ar alcohol?**





Sylfaen: Ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru a oedd wedi clywed am dreth ar alcohol (2,037 yn 2016-17; 1,483 yn 2017-18; 1,496 yn 2018-19).

## 12. Treth ar deithiau awyr

*Heb ei datganoli.*

12.1 Ym mhob un o flynyddoedd yr arolwg, dywedodd tua hanner yr ymatebwyr yn gywir mai Llywodraeth y DU sydd â'r rheolaeth fwyaf dros osod lefelau treth ar deithiau awyr o Gymru. Fodd bynnag, ym mhob un o flynyddoedd yr arolwg roedd dros draean o'r ymatebwyr yn credu mai Llywodraeth Cymru sydd â'r rheolaeth fwyaf (Ffigur 22).

**Ffigur 22: Pwy sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau'r dreth ar deithiau awyr o Gymru?**





Sylfaen: Ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru a oedd wedi clywed am dreth ar deithiau awyr (1,319 yn 2016-17; 851 yn 2017-18; 859 yn 2018-19).

12.2 Yn 2018-19, <u>nid</u> oedd gwahaniaethau arwyddocaol yng nghyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir mai Llywodraeth y DU sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau'r dreth ar deithiau awyr o Gymru yn ôl oedran, cyrhaeddiad addysgol neu ranbarth.

12.3 Rhwng 2016-17 a 2018-19, bu cynnydd sylweddol yng nghyfran yr ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent yn gwybod faint o reolaeth sydd gan Lywodraeth Cymru dros dreth ar deithiau awyr (Ffigur 23). Dylid nodi, yn ystod y cyfnod hwn, fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi astudiaeth i'r posibilrwydd o ddatganoli'r Doll

Teithwyr Awyr i Gymru[11] a bod Pwyllgor Materion Cymreig Senedd y DU wedi cynnal ymchwiliad[12].

**Ffigur 23: Faint o reolaeth ydych chi'n meddwl sydd gan Lywodraeth Cymru dros dreth ar deithiau awyr o Gymru?**




Sylfaen: Ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru a oedd wedi clywed am dreth ar deithiau awyr (1,319 yn 2016-17; 851 yn 2017-18; 859 yn 2018-19).

[11] Northpoint Aviation (2017)

[12] Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin (2019)

# 13. Cysylltiad rhwng refeniw trethi a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru

13.1 Gofynnwyd i ymatebwyr Arolwg Omnibws Cymru faint o'r arian a godir o drethi yng Nghymru y byddent yn disgwyl ei weld yn mynd tuag at wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru (fel ysgolion, ysbytai a gwasanaethau eraill).

13.2 Rhwng mis Mehefin 2018 a mis Mawrth 2019, gostyngodd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir y byddai'r 'cyfan ohono' yn mynd tuag at wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru o 29 y cant i 24 y cant (Tabl 4).

**Tabl 4: Faint o'r arian a godir o drethi yng Nghymru y byddech chi'n disgwyl ei weld yn mynd tuag at wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru (fel ysgolion, ysbytai a gwasanaethau eraill)?**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr Mehefin 2018 [a] | Canran yr ymatebwyr Mawrth 2019 [a] |
|---|---|---|
| Y cyfan ohono | 29 | 24 |
| Y rhan fwyaf ohono | 43 | 49 |
| Rhywfaint ohono | 25 | 20 |
| Dim ohono | 1 | 1 |
| *Ddim yn gwybod* | *3* | *6* |

Sylfaen: Holl ymatebwyr Arolwg Omnibws Cymru (1,006 Mehefin 2018; 1,001 Mawrth 2019)
(a) Mae'n bosibl na fydd y cyfanswm yn cyfateb i 100 y cant yn union oherwydd talgrynnu

13.3 Ym mis Mawrth 2019, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yng nghyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir y byddai'r holl arian a godir o drethi yng Nghymru yn mynd tuag at wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, yn ôl oedran ond nid yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol na rhanbarth

13.4 Roedd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir y byddai'r holl arian a godir o drethi yng Nghymru yn mynd tuag at wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn uwch ymhlith y rhai 55+ oed (30 y cant) a 35-54 oed (26 y cant) nag ymhlith y rhai 16-34 oed (16 y cant).

## 14. Atodiad A: Methodoleg

### Arolwg Cenedlaethol Cymru

14.1 Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys cyfweliadau wyneb yn wyneb â sampl gynrychioliadol o ryw 11,000 o oedolion 16 oed a throsodd a ddewisir ar hap, ac fe'i cynhelir drwy gydol y flwyddyn.

14.2 Bob blwyddyn, dewisir sampl o gyfeiriadau ar hap o restr gyfeiriadau'r Post Brenhinol. Wedyn, cynhelir cyfweliadau arolwg wyneb yn wyneb ag un oedolyn a ddewisir ar hap o bob aelwyd a ddewisir. Ni chaniateir cyfnewid cyfeiriadau nac unigolion.

14.3 Mae'r sampl ym mhob awdurdod lleol yn gymesur, fwy neu lai, â maint poblogaeth yr awdurdod lleol, gyda maint sampl effeithiol lleiaf o 250 yn yr awdurdodau llai o faint a maint sampl effeithiol o 750 ym Mhowys. Caiff y canlyniadau eu pwysoli er mwyn cynrychioli'r boblogaeth o oedolion yng Nghymru.

14.4 Gwneir y gwaith maes ar gyfer Arolwg Cenedlaethol Cymru gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

14.5 Gofynnwyd cwestiynau am ddatganoli trethi i is-sampl o 2,544 o ymatebwyr yn 2016-17; 1,856 o ymatebwyr yn 2017-18; a 1,926 o ymatebwyr yn 2018-19.

### Arolwg Omnibws Cymru

14.6 Bwriedir i sampl Arolwg Omnibws Cymru gynrychioli'r boblogaeth breswyl yng Nghymru sy'n 16 oed a throsodd. Cynhelir yr arolygon bedair gwaith y flwyddyn – ym mis Mawrth, mis Mehefin, mis Medi a mis Tachwedd – a defnyddir sampl newydd bob tro. Yr uned samplu yw Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is, a dewisir 69 o bwyntiau cyfweld ledled Cymru â thebygolrwydd sy'n gymesur â'r boblogaeth breswyl, ar ôl eu haenu yn ôl awdurdod unedol a grŵp cymdeithasol.

14.7 Ym mhob pwynt samplu, defnyddir rheolaethau cwota demograffig o oedran a dosbarth cymdeithasol o fewn y rhywiau i ddewis ymatebwyr. Gosodir y cwotâu i ddangos proffil demograffig unigol pob pwynt a ddewisir.

14.8 Mae'r data wedi eu pwysoli yn ôl grŵp oedran o fewn y rhywiau o fewn grŵp awdurdodau unedol er mwyn rhoi'r nifer cywir o achosion o fewn cyfanswm Cymru i bob cell a gafwyd o ganlyniadau Cyfrifiad 2011.

14.9 Dewisir sampl newydd o leoliadau cyfweld ac unigolion ar gyfer pob arolwg ac ni chaiff mwy nag un unigolyn o bob aelwyd ei gyfweld. Cynhelir y cyfweliadau wyneb yn wyneb yng nghartrefi'r ymatebwyr gan ddefnyddio technoleg CAPI (Cyfweliadau Personol â Chymorth Cyfrifiadur).

14.10 Gwnaed y gwaith maes ar gyfer cam mis Mehefin 2018 rhwng 4 a 17 Mehefin 2018 (cwblhawyd 1,006 o gyfweliadau); cynhaliwyd cam mis Mawrth 2019 rhwng 25 Chwefror a 10 Mawrth 2019 (cwblhawyd 1,001 o gyfweliadau); a chynhaliwyd cam mis Mehefin 2019 rhwng 3 ac 21 Mehefin 2019 (cwblhawyd 1,025 o gyfweliadau);

**Samplu cwota cyfrannol**

14.11 Pan gaiff data arolwg eu profi i weld a ydynt yn ystadegol arwyddocaol, tybir bod y sampl a geir yn cynrychioli hapsampl o'r boblogaeth berthnasol. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn defnyddio hapsamplu, tra bod Arolwg Omnibws Cymru yn defnyddio samplu cwota cyfrannol. A bod yn fanwl gywir, ni ellir pennu arwyddocâd ystadegol gwirioneddol ar gyfer y dull samplu olaf. Felly, mae gwahaniaethau 'arwyddocaol' sy'n seiliedig ar ddata o Arolwg Omnibws Cymru yn cyfeirio at wahaniaeth arwyddocaol ffug-ystadegol ar 95 y cant o'r lefel hyder. Golyga hyn, pe bai'r arolwg yn defnyddio hapsampl, y byddai'r debygoliaeth o gael y canfyddiad ar hap yn llai nag un mewn 20.

**Dadansoddiad chi-sgwâr**

14.12 Mae'r prawf chi-sgwâr wedi ei ddefnyddio yn y dadansoddiad i bennu a yw'r gydberthynas a welir rhwng dau newidyn categorïaidd yn y sampl yn debygol o adlewyrchu cysylltiad gwirioneddol yn y boblogaeth (h.y. cyfanswm y boblogaeth o oedolion sy'n preswylio yng Nghymru sy'n 16 oed a throsodd).

### Diffiniad o ranbarthau

14.13 Mae Tabl A.1 isod yn dangos pa awdurdodau unedol yng Nghymru sy'n ffurfio'r rhanbarthau a ddefnyddiwyd wrth ddadansoddi'r data o Arolwg Cenedlaethol Cymru ac Arolwg Omnibws Cymru.

**Tabl A.1: Diffiniad o ranbarthau**

| Rhanbarth | Awdurdodau unedol |
|---|---|
| Gogledd Cymru | Ynys Môn<br>Gwynedd<br>Conwy<br>Sir Ddinbych<br>Sir y Fflint<br>Wrecsam |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | Ceredigion<br>Powys<br>Sir Benfro<br>Sir Gaerfyrddin |
| Bae Abertawe | Abertawe<br>Castell-nedd Port Talbot<br>Pen-y-bont ar Ogwr |
| Cymoedd | Rhondda Cynon Taf<br>Merthyr Tudful<br>Caerffili<br>Blaenau Gwent |
| Caerdydd a De-ddwyrain Cymru | Bro Morgannwg<br>Caerdydd<br>Casnewydd<br>Torfaen<br>Sir Fynwy |

## Diffiniad o gyrhaeddiad addysgol

14.14 Mae Tabl A.2 isod yn rhoi diffiniad o'r dosbarthiadau o gyrhaeddiad addysgol a ddefnyddiwyd wrth ddadansoddi'r data o Arolwg Cenedlaethol Cymru.

**Tabl A.2: Diffiniad o gyrhaeddiad addysgol**

| Cyrhaeddiad addysgol | Diffiniad |
| --- | --- |
| Gradd neu gymhwyster uwch | Gradd ôl-raddedig (e.e. MSc, PhD)<br>Gradd gyntaf (e.e. BA, BSc, B. Ed.) neu gymhwyster cyfatebol |
| Cymhwyster islaw lefel gradd | HNC / HND / BTEC Uwch, neu gymhwyster cyfatebol<br>Cymwysterau Safon Uwch / UG neu gymwysterau cyfatebol<br>Prentisiaethau crefft<br>Lefel O / TGAU graddau A-C neu gymwysterau cyfatebol<br>Lefel O / TGAU graddau D-G neu gymwysterau cyfatebol<br>Cymwysterau eraill |
| Dim cymwysterau | Dim cymwysterau |

## Diffiniad o grwpiau economaidd-gymdeithasol

14.15 Mae Tabl A.3 isod yn rhoi diffiniad o'r dosbarthiadau o grwpiau economaidd-gymdeithasol a ddefnyddiwyd wrth ddadansoddi'r data o Arolwg Omnibws Cymru.

**Tabl A.3: Diffiniad o grwpiau economaidd-gymdeithasol**

| **Grŵp economaidd-gymdeithasol** | **Diffiniad** |
|---|---|
| **ABC1** | |
| A | Rheoli, gweinyddol neu broffesiynol uchel |
| B | Rheoli, gweinyddol neu broffesiynol canolradd |
| C1 | Goruchwyliol, clercol a rheoli, gweinyddol neu broffesiynol iau |
| **C2DE** | |
| C2 | Gweithwyr llaw medrus |
| D | Gweithwyr llaw gyda rhywfaint o sgiliau neu heb sgiliau |
| E | Pensiynwyr y wladwriaeth, gweithwyr achlysurol neu ar y radd isaf, pobl ddi-waith gyda budd-daliadau gwladol yn unig |

# 15. Atodiad B: Holiaduron

### Arolwg Cenedlaethol Cymru

Gellir gweld yr holiaduron llawn ar gyfer Arolwg Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys y modiwlau ar ddatganoli trethi, drwy ddilyn y dolenni canlynol: Arolwg Cenedlaethol Cymru: Holiaduron

### Arolwg Omnibws Cymru

15.1 Roedd y cwestiynau ychwanegol a gomisiynwyd ar gyfer camau mis Mehefin 2018 a mis Mawrth 2019 Arolwg Omnibws Cymru (Beaufort Research Ltd.) fel a ganlyn:

*C1. A ydych chi'n ymwybodol o'r ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu gosod cyfraddau treth incwm gwahanol yng Nghymru o 6 Ebrill 2019?*

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

*OS ATEBWYD 'YDW' YN C1*

*C2. Sut gwnaethoch chi ddod yn ymwybodol o hyn? [Peidiwch ag awgrymu atebion – rhowch god ar gyfer pob peth a nodir]*

*GOFYNNWCH I BAWB*

*C3. A ydych chi'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru eisoes yn gosod rhai trethi yng Nghymru, sef y Dreth Trafodiadau Tir (Treth Dir y Dreth Stamp yn Lloegr) a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (Treth Dirlenwi yn Lloegr)?*

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

*C4. Faint o'r arian a godir o drethi yng Nghymru y byddech yn disgwyl ei weld yn mynd tuag at wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru (fel ysgolion, ysbytai a gwasanaethau eraill)? Un cod*

- Y cyfan ohono
- Y rhan fwyaf ohono
- Rhywfaint ohono
- Dim ohono
- Ddim yn gwybod

15.2 Roedd y cwestiwn ychwanegol a gomisiynwyd ar gyfer cam mis Mehefin 2019 Arolwg Omnibws Cymru (Beaufort Research Ltd.) fel a ganlyn:

*C1. A ydych chi'n ymwybodol o'r ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu gosod cyfraddau treth incwm gwahanol yng Nghymru o 6 Ebrill 2019?*

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

# 16. Atodiad C: Gwybodaeth gefndirol am drethi'r DU a threthi a ddatganolwyd i Gymru

### Y Dreth Trafodiadau Tir

16.1 O fis Ebrill 2018, disodlwyd treth dir y dreth stamp gan y Dreth Trafodiadau Tir a gesglir gan Awdurdod Cyllid Cymru er mwyn cefnogi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r dreth newydd yn gyson, fwy neu lai, â threth dir y dreth stamp. Fodd bynnag, gall Llywodraeth Cymru bennu'r trothwyon, y bandiau a'r cyfraddau a ddefnyddir. Mae newidiadau penodol hefyd wedi'u gwneud er mwyn symleiddio'r dreth a'i gwneud yn decach, gwella ei heffeithlonrwydd a'i heffeithiolrwydd a chanolbwyntio'n fwy ar anghenion a blaenoriaethau Cymru (Llywodraeth Cymru, 2019e).

### Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi

16.2 O 1 Ebrill 2018, disodlwyd y dreth dirlenwi gan y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru. Yn debyg i'r dreth dirlenwi, mae'r dreth gwarediadau tirlenwi yn dreth ar waredu deunydd fel anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi ac fe'i codir yn ôl pwysau. Fe'i telir gan weithredwyr safleoedd tirlenwi, sy'n trosglwyddo'r costau hyn i weithredwyr gwastraff drwy eu ffi glwyd. Hyd at 31 Mawrth 2018, cafodd treth dirlenwi ei chasglu a'i rheoli yng Nghymru gan CThEM ar ran Llywodraeth y DU. Mae'r dreth bellach yn cael ei chasglu a'i rheoli gan Awdurdod Cyllid Cymru (Llywodraeth Cymru, 2019d) ac fe'i defnyddir i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

### Treth Incwm

16.3 O fis Ebrill 2019, cafodd Treth Incwm a delir gan drethdalwyr yng Nghymru ei datganoli'n rhannol i Lywodraeth Cymru. Golyga hyn fod gan Lywodraeth Cymru y pŵer bellach i amrywio cyfraddau treth incwm (yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol fel rhan o'i broses pennu'r gyllideb flynyddol) ym mhob band treth a delir gan drethdalwyr yng Nghymru neu eu cadw ar yr un lefel â'r cyfraddau treth incwm a delir yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

16.4 Llywodraeth y DU sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am lawer o agweddau ar dreth incwm o hyd, gan gynnwys bandiau treth incwm a'r trothwy lwfans personol, a bydd

y dreth yn parhau i gael ei chasglu gan CThEM, sef awdurdod treth, taliadau a thollau'r DU (Tipples a Morgan, 2019; Llywodraeth Cymru, 2018).

**Y Dreth Gyngor**

16.5 Mae'r dreth gyngor yn dreth ar eiddo domestig a osodir gan awdurdodau lleol er mwyn casglu digon o refeniw i ddarparu gwasanaethau awdurdod lleol. Mae hyn yn cynnwys elfennau ar gyfer y cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol, awdurdod yr heddlu a, lle y bo'n gymwys, y gymuned leol neu gyngor y dref. Fe'i cyfrifir ar sail band y dreth gyngor a roddir i bob annedd ym mhob awdurdod lleol, y caiff pob un ohonynt ei ddosbarthu i un o naw band prisio A i I (Llywodraeth Cymru, 2019c).

16.6 Mae bil Treth Gyngor llawn yn seiliedig ar o leiaf ddau oedolyn yn byw mewn eiddo. Yn dibynnu ar nodweddion yr eiddo neu'r aelwyd, efallai y bydd talwyr biliau yn gymwys i gael disgownt neu ostyngiad yn eu biliau.

**Treth ar Werth (TAW)**

16.7 Mae Treth ar Werth (TAW) yn dreth drafodiadau a godir ar werthu nwyddau a gwasanaethau ac a osodir gan Lywodraeth y DU. Mae'r gwaith o weinyddu, casglu a gorfodi TAW yn cael ei wneud gan CThEM. Codir TAW ar y rhan fwyaf o nwyddau a gwasanaethau, er bod rhai, megis yswiriant, cyllid a mathau penodol o addysg a hyfforddiant, sydd wedi'u heithrio.

16.8 Mae tair cyfradd TAW: cyfradd safonol TAW a godir ar y rhan fwyaf o nwyddau a gwasanaethau yw 20 y cant; codir cyfradd is o 5 y cant ar danwydd a phŵer domestig, ac eitemau eraill megis cynhyrchion arbed ynni domestig a seddi plant mewn ceir; a chyfradd sero sy'n gymwys i fusnesau penodol, gan gynnwys dillad ac esgidiau plant, llyfrau a phapurau newydd, a rhai bwydydd a diodydd (Llywodraeth Cymru, 2019b).

**Treth ar alcohol – Toll Alcohol**

16.9 Mae'r rhan fwyaf o gynhyrchion sy'n cynnwys alcohol yn agored i gyfres o dollau cartref; naill ai toll gwirodydd, toll gwinoedd, toll cwrw neu doll seidr a pherai. Cesglir y tollau hyn gan CThEM ac fe'u codir ar wneuthurwyr a mewnforwyr. Codir TAW ar alcohol hefyd. Caiff cyfradd tollau alcohol ei haddasu'n flynyddol gan Ganghellor y Trysorlys fel rhan o'r Gyllideb, gyda newidiadau yn dod i rym y diwrnod hwnnw o dan delerau Deddf Casglu Trethi Dros Dro 1968.

16.10 Yng Nghymru, cafodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 Gydsyniad Brenhinol ym mis Awst 2018 a disgwylir iddi ddod i rym ym mis Mawrth 2020. Er y bydd y Ddeddf yn cyflwyno isafbris am werthu a chyflenwi alcohol yng Nghymru, dylid nodi nad yw hwn yn dreth ar alcohol.

**Treth ar deithiau awyr**

16.11 Mae Toll Teithwyr Awyr yn dreth a godir ar deithwyr sy'n hedfan o'r DU ac mae'n gymwys i hediadau pellter byr a phellter hir. Datganolwyd Toll Teithwyr Awyr yn llawn i'r Alban yn 2018, gyda hediadau pellter hir yn cael eu datganoli i Ogledd Iwerddon yn 2012. Mae'n fater a gedwir yn ôl yng Nghymru sy'n golygu, felly, mai Llywodraeth y DU sy'n gosod cyfraddau Toll Teithwyr Awyr ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae CThEM yn amcangyfrif bod Cymru yn cyfrannu £11 miliwn mewn Tollau Teithwyr Awyr i Drysorlys y DU, sy'n cyfateb i 0.4% o gronfeydd wrth gefn Toll Teithwyr Awyr y DU (Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin, 2018).

16.12 Mae Llywodraeth Cymru wedi galw'n gyson i Doll Teithwyr Awyr gael ei datganoli i Gymru. Yn 2012, cyhoeddodd Comisiwn Silk ei gynigion ar gyfer datganoli pwerau cyllidol i Gymru ac argymhellodd y dylid datganoli cyfraddau Toll Teithwyr Awyr ar gyfer hediadau pellter hir, fel yng Ngogledd Iwerddon, ac ystyried ymhellach y posibilrwydd o ddatganoli'r doll yn llawn yn y dyfodol.

16.13 Yn 2016, cadarnhaodd Llywodraeth y DU nad oedd yn bwriadu datganoli Toll Teithwyr Awyr i Gymru am y byddai'n ystumio'r farchnad oherwydd agosrwydd maes awyr Caerdydd i feysydd awyr eraill yn y DU, yn arbennig Bryste. Lluniodd Llywodraeth Cymru adroddiad ym mis Mehefin 2017 a heriodd asesiad Llywodraeth y DU ac, yn fwy diweddar, cynhaliodd Pwyllgor Materion Cymreig Senedd y DU ymchwiliad ‘Datganoli Toll Teithwyr Awyr i Gymru’. Argymhellodd adroddiad y Pwyllgor, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2019, y dylid datganoli Toll Teithwyr Awyr i Gymru. Galwyd ar Lywodraeth y DU i nodi cynlluniau ar gyfer gwneud hynny erbyn 2021 (Tipples, 2019).

## 17. Cyfeiriadau


Ifan, G. a Poole, E. G. (2018) Y Sylfaen Drethu Gymreig. Risgiau a Chyfleoedd ar ôl Datganoli Cyllidol*.* Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Llywodraeth Cymru (2017) Fframwaith Polisi Trethi. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Cyrchwyd: 29 Tachwedd 2019].

Llywodraeth Cymru (2018) Cyfraddau Treth Incwm yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Cyrchwyd: 26 Tachwedd 2019].

Llywodraeth Cymru (2019) Arolwg Iechyd Cymru prif ganlyniadau: Ebrill 2018 i Mawrth 2019. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Cyrchwyd: 24 Mehefin 2019].

Llywodraeth Cymru (2019a) Cynllun Gwaith Polisi Trethi Llywodraeth Cymru 2019. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Cyrchwyd: 25 Tachwedd 2019].

Llywodraeth Cymru (2019b) Treth Ar Werth (TAW). Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Cyrchwyd 24 Tachwedd 2019).

Llywodraeth Cymru (2019c) Statistical First Release: Council Tax Levels in Wales: 2019-20. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Cyrchwyd 25 Tachwedd 2019].

Llywodraeth Cymru (2019d) Ystadegau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi: Ebrill i Mehefin 2019. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Cyrchwyd 25 Tachwedd 2019].

Llywodraeth Cymru (2019e) Treth Trafodiadau Tir. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Cyrchwyd 26 Tachwedd 2019].

Northpoint Aviation (2017) Devolution of Air Passenger Duty to Wales. Llundain: Northpoint Aviation Services Ltd. [Cyrchwyd: 21 Hydref 2019].

Owens. N. a Jones, I. (2019) *Dealltwriaeth y cyhoedd o ddatganoli trethi: adroddiad sylfaenol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Prifysgol Bangor (2017) Gwaith Craffu a Sicrhau Annibynnol ar Ragolygon Trethi Datganoledig i Gymru. Adroddiad Terfynol: Hydref 2017. Bangor: Prifysgol Bangor.

Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin (2018) Submissions wanted on the Devolution of Air Passenger Duty to Wales. Llundain: Senedd y DU. [Cyrchwyd: 26 Tachwedd 2019].

Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin (2019) Devolution of Air Passenger Duty to Wales. Fifth Report of Session 2017-19. Llundain: Tŷ'r Cyffredin. [Cyrchwyd: 2 Tachwedd 2019].

Revenue Scotland (2017) Air Departure Tax. Caeredin: Revenue Scotland. [Cyrchwyd: Medi 2019]

Seely, A. (2017) Alcohol taxation and the pub trade. House of Commons Library Briefing Paper, No. 1373. Llundain: Senedd y DU.

Tipples, C. (2019) Toll Teithwyr Awyr. Beth yw'r sefyllfa bresennol yng Nghymru? Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru. [Cyrchwyd 26 Tachwedd 2019].

Tipples, C. a Morgan, L. (2019) Briff Ymchwil y Senedd – Caiff Cyfraddau Treth Incwm Cymru eu cyflwyno yng Nghymru o fis Ebrill 2019: Beth fydd hyn yn ei olygu i drethdalwyr Cymru? [Ar-lein]. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru. [Cyrchwyd 26 Tachwedd 2019].